# BRERETON, JANE (1685 - 1740), bardd

**Enw:** Jane Brereton
**Dyddiad geni:** 1685
**Dyddiad marw:** 1740
**Priod:** Thomas Brereton
**Rhiant:** Anne Hughes
**Rhiant:** Thomas Hughes
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Merch Thomas ac Anne Hughes, Bryn Griffith, gerllaw'r Wyddgrug. Yn 1711 priododd Thomas Brereton (1691 - 1722), un o fân ddramawyr ei gyfnod. Ar farwolaeth ei g  r yn 1722 dywedir iddi ymsefydlu yn Wrecsam, lle y bu farw fis Awst 1740 gan adael dwy ferch.

Dangosodd ddeheurwydd mewn cyfansoddi barddoniaeth Saesneg a dechreuodd gyfrannu i'r *Gentleman's Magazine* dan y ffugenw ' Melissa.' Ar ôl ei marw cyhoeddwyd cyfrol a'i gwaith dan y teitl *Poems on several occasions, with letters to her friends and an account of her life* (London, 1744).

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

A. Chalmers, *The General Biographical Dictionary containing an historical and critical account of the lives and writings of the most eminent persons in every nation* (Llundain 1812-16), vi

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

H. Blackwell, NLW MSS 9252A: A Dictionary of Welsh Biography


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jane Brereton

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 71246327

Wikidata: Q6151191


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu